Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board

MEYSYDD BLAENORIAETH OEDOLION A PHOBL HŶN:

# Gwasanaethau Cymunedol

**Er mwyn i wasanaethau fod yn hygyrch i bobl hŷn yn eu cymunedau.**

**Rydyn ni eisiau i bobl hŷn a phobl sy'n byw gyda dementia gymryd rhan mewn gwasanaethau yn eu cymunedau, cyfrannu atynt a chael mynediad iddynt.**

**I gyflawni hyn, byddwn ni'n gweithio tuag at:**

- **Gwella hygyrchedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o fewn cymunedau ar draws ein rhanbarth.**
- **Datblygu cymunedau cynhwysol, gan ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl hŷn gymryd rhan mewn gweithgareddau.**
- **Gwella rhannu gwybodaeth a chynyddu nifer y cyfleoedd cymdeithasol sydd ar gael i bobl hŷn.**





## BETH SY'N BWYSIG I BOBL HŶN?

Hoffai pobl hŷn wybod beth sy'n digwydd yn y gymuned leol drwy wybodaeth dda a hygyrch, a chymorth i gyrraedd gweithgareddau drwy gysylltiadau trafnidiaeth gwell.

## BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:

- Ein huchelgais yw symud gwasanaethau mas o ysbytai i gymunedau, ac rydyn ni eisiau mwy o wasanaethau sy'n atal pobl rhag mynd yn sâl drwy ganfod pethau'n gynt, neu eu hatal yn gyfan gwbl. Bydd hyn yn cynnwys helpu pobl i reoli eu hiechyd eu hunain, a rheoli salwch hirdymor.
- Cefnogi unigolion i barhau i fod yn weithgar ac yn annibynnol gan ymgysylltu â phartneriaid yn y sector gwirfoddol.
- Parhau i gefnogi rhagnodi cymdeithasol a chymorth llesiant.

## PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

- Bydd pobl yn parhau i fod yn weithgar ac annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau.

### DYWEDODD POBL

**Mae'n amser i fi eto. Mae gen i lawer i'w roi."**

---

**"Rydyn ni'n cydnabod yr heriau ac mae angen dod o hyd i atebion gwahanol."**